

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffydd mewn addysg

www.cymru.gov.uk

# Ffydd mewn addysg

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cymunedau ffydd; penaethiaid; uwch reolwyr; athrawon; cyrff llywodraethu; colegau; darparwyr hyfforddi; awdurdodau lleol; CYSAGau; awdurdodau esgobaethol eglwysi; undebau athrawon; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg grefyddol; unigolion sydd â diddordeb yn rôl ffydd yn y system addysg. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o'r sefydliad a rôl ffydd yn y system addysg, gan gynnwys rôl ysgolion o natur crefyddol yng nghyd-destun system ysgolion ehangach. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim. |
| **Gwybodaeth bellach** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-Adran Cwricwlwm<br>Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 1750<br>e-bost: curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Ar gael drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Faith in the system* (Department for Children, Schools and Families, Medi 2007) |

Cyf: CAD/GM/0183
ISBN: 978 0 7504 6360 7
© Hawlfraint y Goron 2011

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Beth yw'r sail hanesyddol i ddimensiwn sy'n ymwneud â ffydd mewn addysg?** | **4** |
| **Beth yw'r Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Cymru?** | **6** |
| **Beth yw'r prif fathau o ysgolion a'u nodweddion crefyddol cysylltiedig?** | **7** |
| **Pa ddarpariaeth statudol sydd ar waith mewn perthynas â'r dimensiwn ffydd mewn addysg?** | **9** |
| **Beth yw ethos nodweddiadol ysgolion o natur grefyddol a sut mae'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned ehangach?** | **11** |
| **Beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn?** | **15** |
| **Sut mae'r sector yn sicrhau amrywiaeth o ran diwallu anghenion dysgwyr?** | **16** |
| **Beth yw'r cwricwlwm?** | **20** |
| **Beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol ym mhob ysgol a gynhelir?** | **22** |
| **Sut yr ymdrinnir â sgiliau a materion dysgu ar draws y cwricwlwm, a sut y cân nhw eu dehongli?** | **25** |
| **Sut caiff addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ei darparu?** | **27** |
| **Beth yw rôl cydaddoli?** | **29** |
| **Beth sydd gan gymunedau ffydd Cymru i'w gynnig i ysgolion a cholegau eraill nad ydyn nhw yn y sector?** | **31** |
| **Casgliad** | **33** |
| **Atodiad: Cymru – Ffiniau esgobaethol** | **34** |

# Rhagair gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf y dylid dathlu'r diwylliannau gwahanol ac amrywiol sy'n bodoli yng Nghymru. Un agwedd ar yr amrywiaeth sy'n bodoli o fewn ein cymunedau yw ysgolion o natur grefyddol ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rhan bwysig mae ffydd wedi'i chwarae o ran datblygu'r system addysg yng Nghymru. Heddiw, mae ysgolion o natur grefyddol yn parhau i gyflawni rôl werthfawr yng nghymdeithas Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio'r ddogfen hon ar y cyd â chynrychiolwyr darparwyr ysgolion o natur grefyddol a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru sef yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg Gatholig Cymru a Lloegr, a hoffwn estyn diolch i'r ddau sefydliad am eu hymrwymiad i ddatblygu'r ddogfen hon.

Nod y ddogfen hon yw amlinellu nodweddion ysgolion o natur grefyddol yng Nghymru ar hyn o bryd, nodi ethos a chymeriad yr ysgolion hyn, herio rhagdybiaethau a phwysleisio a dathlu amrywiaeth.

Wrth amlinellu strwythur presennol y sector, mae'n bwysig nodi bod natur addysg sy'n seiliedig ar ffydd a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru yn Gristnogol yn bennaf, ac mae'r wybodaeth ddisgrifiadol yn y ddogfen hon wedi'i hysgrifennu o safbwynt Cristnogol. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon hefyd wedi'i llunio'n ofalus er mwyn creu dogfen ddefnyddiol i enwadau a chredoau eraill.

Mae *Ffydd mewn addysg* yn dangos natur ddeinamig a blaengar addysg o natur grefyddol yng Nghymru, ac yn dathlu natur unigryw ysgolion ffydd yn ein diwylliant.

**Leighton Andrews**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

# Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon, mae Llywodraeth Cymru a darparwyr ysgolion o natur grefyddol (a elwir yn ysgolion ffydd yn aml) yn nodi ein cyd-ddealltwriaeth o'r cyfraniad cadarnhaol iawn y mae ysgolion o'r fath yn ei wneud i'r system addysg a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn ystyried, yn dathlu ac yn cyflwyno ein cyd-fenter er mwyn cynnal ein cyd-ddealltwriaeth a'n ffyrdd o weithio a'u datblygu ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dyheadau rhieni a gofalwyr i addysgu eu plant yng nghyd-destun ffydd fyd-eang yn rhesymol. Ein diben yw tynnu sylw at y ffyrdd mae ysgolion o'r fath yn nodedig ond nid yn unigryw o ran y ffordd maen nhw'n ymdrin ag addysg, yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac yn helpu dysgwyr i ffynnu a chyrraedd eu potensial. Rydym yn gobeithio chwalu rhai o'r mythau a'r rhagdybiaethau cyffredin a fydd gan rai pobl o bosibl mewn perthynas â rôl ysgolion o'r fath o fewn y system. Felly, ein nod yw hyrwyddo dulliau cyfathrebu parchus a deallusol a chadarnhau ein cyd-ddealltwriaeth o gyfraniad gwerthfawr ac adeiladol ysgolion o natur grefyddol i'n bywydau cyffredinol fel cenedl.



Dysgwyr o Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn addoli yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Er bod y ddogfen yn ymwneud yn bennaf ag ysgolion a ariennir yn gyhoeddus, sydd i gyd yn rhai Cristnogol yng Nghymru ar hyn o bryd, mae llawer o'r hyn a nodir yn berthnasol i ysgolion o gredoau eraill, yn y sector annibynnol presennol ac mewn unrhyw ysgol a gynhelir yn y dyfodol sy'n cael ei sefydlu gan draddodiad crefyddol gwahanol. Yn wir, ein nod cyffredin yw meithrin mwy o weithio mewn partneriaeth a gwell cydlyniant ymysg holl ddarparwyr addysg Cymru, gan gydnabod y cyfraniad a wneir gan bob ysgol – boed yn ysgol o natur grefyddol ai peidio – i wella ein cymdeithas drwy addysgu'r person cyfan a hybu lles y dysgwr.

Mae pob un o'r ysgolion yn y sector ffydd yn mynd i'r afael â'r weledigaeth a rennir, a nodir yma, wedi'u hysbrydoli gan fywyd, geiriau a gweithredoedd sylfaenydd eu ffydd, gan fynegi gwir barodrwydd i fod yn agored ynghyd ag awydd i feithrin dimensiwn ysbrydol i fywydau pobl ifanc. Rydym yn bartneriaid pwysig ym maes addysg yng Nghymru, ac rydym am gyfleu ein hymrwymiad gwirioneddol fel partneriaid annatod ac atebol mewn bywyd cyhoeddus, gan geisio hyrwyddo cymdeithas fwy trugarog, cyfiawn a chynhwysol drwy addysg.

## Beth yw'r sail hanesyddol i ddimensiwn sy'n ymwneud â ffydd mewn addysg?

Mae gan sefydliadau ffydd draddodiad hir ac arloesol o ddarparu addysg yng Nghymru, sy'n dyddio'n ôl i'r canoloesoedd, traddodiad a atgyfnerthwyd drwy ddarpariaethau a wnaed yn yr oes Fictoraidd. Nod yr ysgolion eglwysig a sefydlwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd cynnig addysg sylfaenol i'r tlodion ar adeg pan nad oedd y wladwriaeth yn cynnig darpariaeth o'r fath. Roedd y darparwyr cynnar yn cael eu hysgogi gan argyhoeddiad Cristnogol cadarn, sef bod pob plentyn wedi'i greu ar ddelw Duw ac y byddai addysg am ddim yn ei helpu i gyflawni ei botensial, ffynnu fel unigolyn ac felly oresgyn tlodi a diraddiad. Gan fod y wladwriaeth a chymunedau ffydd bellach yn bartneriaid o ran darparu addysg, mae rôl darparwyr ffydd mewn addysg wedi datblygu. Y nod presennol yw nid yn unig darparu digon o addysg i sicrhau urddas i bobl a chymdeithas deg, ond cynnig cyfle clir i bobl ifanc archwilio dimensiwn ysbrydol i'w bywydau ym maes addysg. At hynny, mae gan ysgolion o natur grefyddol hanes cadarn o ymrwymiad tuag at gynhwysiant ac maen nhw'n rhagweithiol yn y ddarpariaeth maen nhw'n ei chynnig i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, gan eu helpu i gyflawni eu potensial llawn pan fyddan nhw mewn addysg. Mae Llywodraeth Cymru ac ysgolion o natur grefyddol o'r farn bod nodau hanesyddol o'r fath yn parhau'n berthnasol heddiw ac maen nhw'n cyflwyno dadl gref dros gynnig dewis ychwanegol i rieni a phlant o ran darpariaeth ysgol o safon dda.

Bellach, mae ysgolion o natur grefyddol yn chwarae rôl bwysig fel darparwyr o'r radd flaenaf yn y system, gan ymdrin ag addysg mewn ffordd sy'n helpu i sicrhau bod Cymru sy'n dod yn fwyfwy amrywiol yn genedl fwy goddefgar a nodweddir gan gyfiawnder a ffyniant. Fel teulu o ysgolion, mae ysgolion o natur grefyddol yn rhannu llawer o'r un gwerthoedd, maen nhw'n parchu ei gilydd, ac mae ganddyn nhw ddiddordeb yn ethos ac ysbrydolrwydd ei gilydd. Mae'r ysgolion yn bartneriaid llawn gyda Llywodraeth Cymru mewn bywyd cyhoeddus a, gyda'n gilydd, gobeithiwn dynnu sylw at ein cyd-flaenoriaethau, ein nodau cyffredin a'n gwerthoedd a rennir. Gwnawn hyn i feithrin cyd-ddealltwriaeth a pharch rhyngom, gan barhau i lynu wrth yr amrywiaeth o safbwyntiau ffydd sy'n bodoli ymysg y darparwyr a pharchu urddas pob crefydd yng Nghymru.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Diwallu anghenion y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol**

Yn 2009, cysylltodd awdurdod lleol (ALI) Caerdydd ag Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf gyda chynnig i ymestyn yr ysgol i ddarparu addysg i ddysgwyr â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistig. Byddai'r dysgwyr yn cynnwys rhai na fydden nhw'n debygol o allu integreiddio yn yr ysgol brif ffrwd ac eraill a fyddai o bosibl yn gallu cymryd rhan mewn rhai o'r dosbarthiadau arferol. Dewiswyd yr ysgol o blith ysgolion Caerdydd o ganlyniad i'w llwyddiant o ran cynhwysiant, yn arbennig gyda dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Ar ôl ymgynghori â staff a llywodraethwyr, gwnaeth yr ALI gais i Lywodraeth Cymru am grant cyfalaf. Bu'r cais yn llwyddiannus a chafwyd dros £4 miliwn. Ychwanegodd yr ALI swm at y ffigur hwn a chafwyd cyllideb o £5.2 miliwn ar gyfer y datblygiad. Agorwyd adeiladau dros dro i ddysgwyr ym mis Medi 2009 ac mae dau ddosbarth o chwe phlentyn yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae athro a dau gynorthwyydd dosbarth ym mhob dosbarth.

Mae Canolfan Marion, sef yr enw a roddwyd i'r datblygiad, yn llunio ei chwricwlwm ei hun ac yn ceisio efelychu cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 lle bo'n bosibl. Caiff dysgwyr eu hintegreiddio drwy ddysgu personol fel gall rhai dysgwyr ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd lle bo hynny'n briodol. Gall dysgwyr Canolfan Marion hefyd ddefnyddio rhai o gyfleusterau arbenigol yr ysgol, fel ystafelloedd cerddoriaeth ac ystafelloedd technoleg bwyd. Caiff cyfleoedd i integreiddio eu datblygu drwy gasglu cinio o'r ffreutur, ymuno â'r ysgol gyfan mewn Cymundeb a'r Eisteddfod flynyddol.

Yn arwyddocaol, mae Canolfan Marion wedi bod yn ganolbwynt i ddysgwyr eraill yn yr ysgol sydd am ddysgu mwy am blant â chyflwr ar y sbectrwm awtistig. Mae clybiau cinio a digwyddiadau cymdeithasol yn ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr integreiddio. Mae datblygiad y staff hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r ysgol gyfan wedi canolbwyntio ar hyn.

Mae addysg gynhwysol yn rhan annatod o genhadaeth ysgol yr Esgob: ysgol sydd â'r nod o gynnwys dysgwyr o bob rhan o gymdeithas. Mae'r datblygiad cyffrous hwn yn enghraifft dda o'r bartneriaeth greadigol rhwng Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, ALI Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

# Beth yw'r Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Cymru?

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi dyheadau rhieni/gofalwyr i addysgu eu plant o fewn cyd-destun ffydd ac mae'n cyfleu'r gefnogaeth hon mewn sawl ffordd, gan gynnwys cynnal ysgolion enwadol, lle bo hynny'n rhesymol ac yn briodol. Mae awdurdodau lleol yn cynnal nifer o fathau gwahanol o ysgol. Er bod yr holl ysgolion yn wahanol o ran eu nodweddion, amlinellir eu nod cyffredin yn y Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Cymru[1], sef bod pob ysgol yn:

- galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu llawn botensial drwy feithrin sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion sy'n weithgar yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol ac yn ddysgwyr gydol oes
- hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, yn arbennig drwy ddatblygu lles dysgwyr a phersonoleiddio eu dysgu
- sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol cryf mewn ysgolion lle gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol ym maes dysgu ac addysgu
- cynnig cwricwlwm i blant a phobl ifanc sy'n ymgysylltu â nhw ac yn eu cymell i ddysgu a chyflawni eu potensial
- darparu cymuned ddysgu i bawb sy'n ymwneud â bywyd yr ysgol, gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd wrth wraidd y gymuned honno, a chan gynnwys y llywodraethwyr, yr athrawon, aelodau eraill o staff yr ysgol ac oedolion sy'n hyfforddi i weithio mewn ysgolion
- chwarae rhan allweddol gydag ysgolion eraill a darparwyr gwasanaeth partner wrth gynllunio a darparu gwasanaethau integredig i blant a phobl ifanc er mwyn gwella eu lles
- darparu neu hwyluso addysg fel bo ysgolion yn cyfrannu at y broses o ddiwallu anghenion y gymuned ac ymgysylltu â'r gymuned fel partneriaid er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn canolbwyntio ar y gymuned.

[1] www.sefwales.co.uk/sef-p2-home/sef-p2-about-sef/sef-p2-about-sef-sef-and-schools/sef-p2-sef-national-purpose-for-schools/sef-p2-sef-national-purpose-for-schools-2.htm

# Beth yw'r prif fathau o ysgolion a'u nodweddion crefyddol cysylltiedig?

Wrth gyflawni'r nod cyffredin hwn i bob dysgwr, mae awdurdodau lleol yn cynnal pedwar math gwahanol o ysgolion sydd â dyletswyddau llywodraethu gwahanol a dulliau gwahanol o ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ethos. Gellir dosbarthu ysgolion o natur grefyddol o fewn teipoleg a nodweddir gan y pedwar math o ddarpariaeth a ddisgrifir isod.

Caiff **ysgolion cymunedol** eu cynnal gan yr awdurdod lleol, sef yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol honno. Er bod yr ysgolion hyn yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer y weithred feunyddiol o gydaddoli ac yn darparu gwersi addysg grefyddol statudol, mae'n bosibl na fyddan nhw o natur grefyddol benodol. Ar y llaw arall, mae'n bosibl bydd **ysgolion gwirfoddol a reolir** o natur grefyddol, yn cael mewnbwn gan yr awdurdod esgobaethol perthnasol, a hyd yn oed yn dewis maes llafur enwadol ar gyfer darparu gwersi addysg grefyddol statudol, er eu bod yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (sef, unwaith eto, awdurdod derbyn yr ysgol). Mae ysgolion sy'n perthyn i'r trydydd categori, sef **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir**, unwaith eto yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol, ond maen nhw'n gweithredu fel eu hawdurdodau derbyn eu hunain. Efallai byddan nhw o natur grefyddol, byddan nhw'n cyflogi staff ac yn berchen ar y tir a'r safle. Mae ysgolion yn y categori hwn yn cael llawer o fewnbwn esgobaethol, gyda'r ysgol a/neu'r gymuned ffydd yn cyfrannu at anghenion cyfalaf ysgolion o natur grefyddol. Caiff **ysgolion sefydledig** hefyd eu cynnal gan yr awdurdod lleol ac maen nhw'n gweithredu fel eu hawdurdodau derbyn eu hunain ac efallai byddan nhw o natur grefyddol, yn cyflogi staff ac yn berchen ar dir a safle'r ysgol.

**Teipoleg a nodweddion crefyddol yr ysgol**

| | Ysgol wirfoddol a gynorthwyir o natur grefyddol | Ysgol wirfoddol a reolir | Ysgol sefydledig (heb sefydliad) | Ysgol sefydledig (gyda sefydliad) | Ysgol gymunedol – o bosibl ddim o natur grefyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogwr staff** | Corff llywodraethu | Awdurdod lleol | Corff llywodraethu | Corff llywodraethu | Awdurdod lleol |
| **Perchennog/ deiliad safle ac adeiladau'r ysgol** | Sefydliad elusennol | Sefydliad elusennol | Corff llywodraethu | Sefydliad elusennol | Awdurdod lleol |
| **Perchennog/ deiliad y meysydd chwarae** | Awdurdod lleol (fel arfer) | Awdurdod lleol (fel arfer) | Corff llywodraethu (fel arfer) | Sefydliad elusennol (fel arfer) | Awdurdod lleol |
| **Awdurdod derbyn** | Corff llywodraethu | Awdurdod lleol | Corff llywodraethu | Corff llywodraethu | Awdurdod lleol |
| **Addysg grefyddol** | Corff enwadol | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg grefyddol (CYSAG)<br><br>(enwadol yn ôl cais rhieni/gofalwyr) | CYSAG | CYSAG | CYSAG |

# Pa ddarpariaeth statudol sydd ar waith mewn perthynas â'r dimensiwn ffydd mewn addysg?

Y system ar y dudalen flaenorol, sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gan sefydliadau ffydd a'r ysgolion hynny nad ydyn nhw o natur grefyddol, sydd wrth wraidd y system ysgolion gwladol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r manteision mae'r system hon yn eu cyflwyno i gymdeithas, o ran dewisiadau rhieni a gwella safonau drwy annog amrywiaeth adeiladol. Mae deuoliaeth y system yn rhoi cyfle i ddysgwyr gael eu haddysgu mewn lleoliad sy'n seiliedig ar ffydd neu tu allan iddo yn unol â dyheadau eu rhieni/gofalwyr. Mae hyn yn unol â'r ddyletswydd o dan Erthygl 2 o Brotocol 1 Siarter Hawliau Dynol Ewrop: 'parchu hawl rhieni i sicrhau addysg a threfniadau addysgu yn unol â'u crefydd a'u credoau athronyddol eu hunain'. Yn unol â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfraniad mae ysgolion o natur grefyddol yn ei wneud i'r system ysgolion – o ganlyniad i'w rôl hanesyddol ac fel partneriaid cyfredol mewn perthynas â chyfrannu at system ysgolion fwy amrywiol a chynnig mwy o gyfleoedd o ran dewisiadau rhieni ac ymgysylltu â dysgwyr.

O fewn y system a gynhelir, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth statudol i addysg sy'n cydnabod dimensiwn crefyddol. Caiff y cymorth hwn ei lywodraethu drwy ddarpariaeth statudol, rheoliadau, canllawiau a chyllid, ac mae'n cynnwys:

- parhau i gyflwyno darpariaeth statudol i sicrhau bodolaeth ysgolion enwadol a gefnogir gan y wladwriaeth, a gynhelir gan awdurdodau lleol ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cymorth Refeniw i awdurdodau lleol
- cymorth ar gyfer darpariaeth enwadol ôl-16 drwy gyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru
- parhau i gyflwyno darpariaeth statudol i sicrhau hawl ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i ddilyn eu cwricwlwm addysg grefyddol enwadol eu hunain, rhoi blaenoriaeth i ddilynwyr y ffydd wrth benodi athrawon, a chyflwyno gofynion derbyn sy'n rhoi blaenoriaeth i geisiadau gan blant o ffydd yr ysgol pan fydd ysgolion o'r fath yn derbyn gormod o geisiadau
- darpariaeth statudol gellir ei chymharu ag ysgolion eraill o natur grefyddol o ran penodi cyfran o athrawon sy'n dilyn ffydd yr ysgol i swyddi priodol sydd wedi'u cadw
- darpariaeth i sicrhau gall pob ysgol o natur grefyddol benodi llywodraethwyr i'r corff llywodraethu yn benodol i ddiogelu'r natur honno

- gofyniad statudol am weithred o gydaddoli o natur Gristnogol ar y cyfan ym mhob un o ysgolion y wladwriaeth, boed yn ysgol o natur grefyddol ai peidio
- darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol statudol yng nghwricwlwm pob ysgol
- cefnogaeth i feysydd llafur addysg grefyddol y cytunir arnyn nhw'n lleol drwy CYSAG.






Plant o bob man yng Nghymru yn cymryd rhan mewn arddangosfeydd dawnsio traddodiadol yn y Senedd, yn ystod dathlu Blwyddyn o Addysg Gatholig.

# Beth yw ethos nodweddiadol ysgolion o natur grefyddol a sut mae'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned ehangach?

Fel gyda phob ysgol a gynhelir, mae darparwyr ysgolion o natur grefyddol yng Nghymru yn rhannu'r nod cyffredin a amlinellir ar y tudalennau blaenorol. Mae ganddyn nhw ymrwymiadau eang sy'n canolbwyntio ar les ac addysg y bobl ifanc yn eu gofal. Mae ysgolion o natur grefyddol yn cyflawni'r nod cyffredin hwn drwy seilio eu ffordd o addysgu yn fwriadol ar weledigaeth sy'n ymwneud ag ystyr ffynnu fel bod dynol, drwy:

- werthfawrogi urddas y bod dynol o fewn pob unigolyn – gan gynnwys dysgwyr a staff
- hyrwyddo ymdeimlad cryf o les a hybu lles pob dysgwr
- cynnig addysg o ansawdd uchel yn unol â'r Diben Cenedlaethol ac annog pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn
- ceisio diwallu anghenion personol pob dysgwr o fewn cyd-destun ei daith ffydd unigol a chynnig cyfleoedd iddo i archwilio'r dimensiwn ysbrydol i fywyd
- hyrwyddo cydlyniant cymunedol a lles cymdeithasol drwy fynd i'r afael ag unigoliaeth ac annog pobl ifanc i ymgysylltu ag eraill i ddarganfod a deall yr hyn sydd ganddyn nhw'n gyffredin
- meithrin agwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth ffydd a phob agwedd arall ar gydraddoldeb er lles pawb
- gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Estyn, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.


Caiff llywodraethwyr a staff ysgolion o natur grefyddol eu harwain gan yr ymrwymiadau hyn mewn ffordd sy'n eu galluogi i gyflawni'r Diben Cenedlaethol a bodloni eu gofynion cyfreithiol yn ogystal â hyrwyddo agwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth a gweithredu fel partneriaid llawn a chreadigol mewn bywyd cyhoeddus. Mae ethos nodweddiadol ysgolion yn y sector hwn yn galluogi dysgwyr i wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas gan eu bod yn ysbrydoli dysgwyr i ystyried cwestiynau yn ymwneud ag ystyr ac arwyddocâd, gan sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu yn unigolion iach a chytbwys sy'n ymwybodol o'u dyletswyddau sifil ac sy'n gallu defnyddio eu ffydd er lles cymdeithas. Mae hyn yn agwedd bwysig ar addysg o fewn y sector hwn: caiff pobl ifanc eu hannog i ystyried sut gallan nhw ddefnyddio eu ffydd er lles pawb a gwrando ar gredoau ei gilydd gyda'r nod o adeiladu cymdeithas gyfiawn a chydnaws. Felly, mae ysgolion o natur grefyddol yn argymell ethos sy'n cynnig dull bwriadol o addysgu, gan annog dysgwyr i ddefnyddio gwerthoedd ffydd fel cyfalaf cymdeithasol i hyrwyddo eu lles eu hunain ochr yn ochr â pharchu lles eraill.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Llysgenhadon Ethos**

Datganiad Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Joseff Sant ym Mhort Talbot o ran ethos yw 'Becoming fully human in Christ'. Fel ysgolion eraill yn y sector, nod yr ysgol yw datblygu pob agwedd ar ddyngarwch ymysg dysgwyr, gan ddefnyddio geiriau Iesu Grist yn Efengyl Sant Ioan fel ei hysbrydoliaeth: 'Myfi a ddeuthum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach' Ioan 10:10.

Er mwyn diogelu a hyrwyddo ei hethos, mae ysgol Joseff Sant yn ethol dau fyfyriwr o'r Chweched Dosbarth i fod yn Llysgenhadon Ethos, yn ogystal â rolau traddodiadol y Prif Fachgen a'r Prif Ferch. Mae'r Llysgenhadon yn gweithio gyda Chaplan yr Ysgol ac yn chwarae rôl weithredol lawn ym mywyd ysbrydol a litwrgaidd yr ysgol. Caiff y Llysgenhadon eu hyfforddi i helpu a chefnogi dysgwyr iau yr ysgol, gan eu hannog i addoli a'u helpu i baratoi gweddïau a llithiau sy'n briodol i'r litwrgi.



Llysgenhadon Ethos yn gwisgo'r allor ar gyfer yr offeren.

Mae'r Llysgenhadon Ethos hefyd yn ymwneud â'r rhaglenni encilio mewnol a'r gwasanaethau cymod/adfer ac yn gweithio ochr yn ochr â staff a dysgwyr i annog myfyrwyr i gymryd rhan. Maen nhw'n cymryd rhan mewn llawer o waith elusennol Cristnogol ac yn helpu i godi arian i CAFOD, dosbarthu basgedi Nadolig i'r henoed a'r rheini sydd mewn angen, noddi plant yn Ysgol Good Hope yn Uganda a chynorthwyo'r Parchedig Giovanni Cefai gyda'i waith cenhadol yn Peru gan ddysgu o'r broses. Ynghyd â llawer o fyfyrwyr eraill o'r Chweched Dosbarth, mae'r Llysgenhadon Ethos yn ymuno â'r Bererindod Gymreig Flynyddol i Lourdes lle maen nhw'n helpu i ofalu am bobl sâl.

Ar hyn o bryd, mae'r Llysgenhadon yn ystyried sefydlu 'grŵp litwrgi' yn yr ysgol gyda'r nod o feithrin ysbrydolrwydd dysgwyr ymhellach a chynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn sesiynau gweddi a arweinir gan ddysgwyr. Maen nhw'n ffyrdd pwysig o gynnal a hyrwyddo ethos yr ysgol.

## Sut mae trefniadau staffio yn y sector ffydd yn helpu i sicrhau'r ethos crefyddol hwn?

Un o'r ffyrdd mae ysgolion o natur grefyddol yn sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar ethos crefyddol yw drwy recriwtio aelodau o staff sy'n cefnogi natur unigryw yr ysgol ac yn cyfrannu ati. Ym mhob ysgol a gynhelir – gan gynnwys y rhai nad ydyn nhw o natur grefyddol – mae'r corff llywodraethu yn chwarae rôl allweddol yn strwythur llywodraethu a staffio'r ysgol, ac mewn ysgolion o natur grefyddol, ceir darpariaeth statudol i alluogi'r cyrff llywodraethu i ddiogelu a datblygu eu hethos sy'n seiliedig ar ffydd. Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir o natur grefyddol, mae hawl statudol gan y corff llywodraethu i flaenoriaethu aelodau o'r un ffydd wrth benodi pob athro/athrawes. Mewn ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig, gall y corff llywodraethu roi blaenoriaeth i aelodau o'r ffydd wrth benodi hyd at un athro/athrawes o bob pump i 'swyddi wedi'u cadw'. Caiff yr athrawon hyn eu dewis am eu priodolrwydd i roi gwersi addysg grefyddol yn unol â disgwyliadau'r sefydliad ffydd.

Gwnaeth Esgobion Catholig Cymru a Lloegr grynhoi pwysigrwydd recriwtio yn eu Memorandwm ar Benodi Athrawon i Ysgolion Catholig:

> The preservation and development of the quality and distinctive nature of Catholic schools depends on the faith, practice and commitment of the teachers in the schools, working with their Governing Bodies.[2]

Caiff swyddi'r pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r pennaeth neu'r cydlynydd addysg grefyddol eu llenwi gan Gatholigion sydd wedi'u bedyddio ac sy'n ymarfer y ffydd. Yn yr un modd, mae'r Gymdeithas Genedlaethol er Hyrwyddo Addysg Gristnogol yn annog ysgolion i gydbwyso'r angen i sicrhau ethos grefyddol gyda'r angen i sicrhau cymuned amrywiol o staff:

> Schools may choose to employ practising Christians in some key posts. These usually include the Headteacher and, where appropriate, the Head of RE and Chaplain. Staff members generally come from a wide variety of social, cultural and religious backgrounds and this adds to the rich tapestry of the schools.[3]

---

2 www.cesew.org.uk/standard.asp?id=267
3 www.churchofengland.org/education/national-society/staffing-governance.aspx

Mae trefniadau staffio gofalus mewn ysgolion yn y sector yn eu galluogi i greu a datblygu ethos unigryw â diwylliant dysgu amrywiol a chroesawgar sy'n seiliedig ar ffydd.

Mae'r ysgolion hynny o natur grefyddol sy'n gweithredu o fewn y system yng Nghymru i gyd yn deillio o sefydliadau Cristnogol ac yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth mewn ysgolion gyda dealltwriaeth glir o natur awdurdod Cristnogol a'r flaenoriaeth i arweinwyr wasanaethu dysgwyr. Dylen nhw ddefnyddio arweinyddiaeth gweision Crist fel model, gan gyfuno dymuniad i wynebu materion anodd gyda hyder a sensitifrwydd i anghenion a theimladau'r rhai yr effeithir arnyn nhw fwyaf. Yn y dyfodol, efallai y sefydlir ysgolion a gynhelir o draddodiadau crefyddol eraill a byddai Llywodraeth Cymru yn eu croesawu ac yn disgwyl iddyn nhw hwythau hefyd fabwysiadu strwythur staffio a dulliau arwain er budd dysgwyr.

# Beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn?

Mae pob ysgol o natur grefyddol yn rhan o'r gymuned sy'n dysgu yn eu hardaloedd lleol ond, o ganlyniad i'w natur arbennig, mae'n derbyn dysgwyr o ardal ddaearyddol fwy nag ysgol debyg nad yw o natur grefyddol. Yn wir, bydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn gweithredu fel eu hawdurdodau derbyn eu hunain. Golyga hyn y gall ysgolion o'r fath lunio eu polisïau derbyn eu hunain o fewn fframwaith y Cod Derbyn i Ysgolion. I gefnogi hyn, mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliadau uchel o ran sut y bydd y corff llywodraethu yn gweithredu'r awdurdod hwn, gan sicrhau bod dysgwyr yn yr ardal ehangach mae'r ysgol yn ei gwasanaethu a'r effaith ar ysgolion a darparwyr addysg eraill yn cael eu hystyried. Mae Llywodraeth Cymru a darparwyr ffydd yn ymrwymedig i drefniadau derbyn teg sy'n hawdd i rieni/gofalwyr eu deall ac sy'n sicrhau mynediad teg i bob teulu, gan roi lle i ddysgwyr nad ydyn nhw'n dilyn y ffydd lle bo amgylchiadau'n caniatáu hynny a lle y gellir diwallu anghenion y dysgwr orau mewn cyd-destun sy'n seiliedig ar ffydd. O gofio anghenion penodol eu sector, mae ysgolion o natur grefyddol yn gweithredu er lles pawb drwy gydweithio â darparwyr eraill ac maen nhw'n ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth, fel yr anogir gan fentrau Llywodraeth Cymru.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Amrywiaeth mewn derbyn a diwylliant**

Mae'r trefniadau derbyn yn Ysgol Gatholig Ein Harglwyddes ym Mangor yn helpu i feithrin diwylliant amrywiol. Mae 120 o blant ar gofrestr yr ysgol Gatholig hon, ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 57 y cant ohonyn nhw. Mae'r ysgol hon yn gwasanaethu cymuned amrywiol iawn. Roedd y gwledydd/ieithoedd a gynrychiolwyd yn yr ysgol yn 2011 fel a ganlyn: India – Malayalam, Hindi, Tamil; Pilipinas – Ffilipino, Tagalog; Sri Lanka – Iaith Sri Lanka; Tsieina – Cantoneg, Mandarin; Irac – Arabeg; Iran – Arabeg, Ffarsi; Kurdistan – Cwrdeg; Ghana – Iaith Ghana; Zimbabwe; Tanzania – Swahili; Rwanda – Iaith Rwanda; Zambia – Bemba; Malawi – Chichewa; De Korea – Koreëg; Gwlad Pwyl – Pwyleg; Portiwgal – Portiwgaleg; Ffrainc – Ffrangeg; Sbaen - Sbaeneg; Lloegr – Saesneg; Iwerddon – Gwyddeleg; Cymru – Cymraeg.

## Sut mae'r sector yn sicrhau amrywiaeth o ran diwallu anghenion dysgwyr?

Ceir 253 o ysgolion o natur grefyddol yng Nghymru, sef 14 y cant o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac sy'n addysgu cyfran sylweddol o ddysgwyr Cymru. Yn yr un modd â phob ysgol arall a gynhelir, disgwylir i'r ysgolion hyn ddarparu amgylchedd sy'n cynnig gofal bugeiliol o ansawdd da ac sy'n sicrhau caiff pob plentyn ei gynnwys, gan gynnwys pob un sy'n derbyn gofal, y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn bwysig am fod cryn amrywiaeth yn y Gymru fodern o ran ffydd, iaith, diwylliant a daearyddiaeth. Ceir camsyniad bod ysgolion o natur grefyddol yn rhai sectyddol sydd ond yn derbyn dysgwyr o'r un ffydd ac sy'n dwyn ynghyd boblogaeth o ddysgwyr sy'n cynrychioli grŵp bach o gymdeithas. Mae tystiolaeth yn dangos bod ysgolion yn y sector yn denu dysgwyr o'r gymdogaeth leol a'r gymuned ehangach sy'n arwain yn aml at amgylchedd cymdeithasol amrywiol, sy'n fwy anodd i ysgolion sy'n gwasanaethu un gymuned ei gyflawni. Mewn ysgolion Catholig yng Nghymru, er enghraifft, nid yw traean o'r dysgwyr yn rhan o'r gymuned ffydd, ac mewn llawer o ysgolion eraill o natur grefyddol caiff nifer sylweddol o leoedd eu cynnig i unigolion o grefyddau gwahanol (neu, yn wir, bobl nad ydyn nhw'n grefyddol). Mae rhagor o gydweithio ar draws y consortia ffydd hefyd yn helpu i feithrin cysylltiadau adeiladol rhwng ysgolion mewn rhannau gwahanol o Gymru, gyda chyfleoedd am bartneriaethau gyda dysgwyr mewn ardaloedd sy'n amrywio o ran cymdeithas a daearyddiaeth. Ceir lle i ddatblygu hyn ymhellach ac rydym yn cefnogi'r argymhellion a wnaed yn y ddogfen *Gwrthsafiad a pharch*[4], sy'n nodi y dylai ysgolion feithrin cysylltiadau gweithredol rhwng cymunedau ac ar draws cymunedau, ac yn cyfleu ein parodrwydd i edrych am gyfleoedd i rannu arfer da ymysg ysgolion gan gyfoethogi profiadau dysgu'r dysgwyr. Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol hefyd yn cynnig cyfleoedd pellach i athrawon o fewn y sector ffydd a thu hwnt iddo, gyda llawer o bartneriaethau ardderchog mewn clystyrau o ysgolion lleol, p'un a ydyn nhw o natur grefyddol ai peidio.

### Beth yw'r trefniadau ar gyfer arolygu?

Fel y trafodwyd eisoes, mae ystod eang o ddeddfwriaethau a chanllawiau yn rheoli'r gwaith o ddarparu dysg a rheoli cydberthnasau â dysgwyr. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bob ysgol ffydd a gynhelir. Mae ysgolion ffydd yn cael eu harolygu'n rheolaidd gan Estyn ac, at hynny, mae'r sefydliadau ffydd yn cynnal eu harolygiadau eu hunain o fywyd crefyddol eu hysgolion (a elwir yn

4 www.cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/110209respecten.pdf

Arolwg Adran 50 mewn ysgolion)[5]. Mae'r system arolygu ddeuol hon wedi rhoi cyfle adeiladol iawn i'r gymuned ffydd weithio mewn partneriaeth ag Estyn, gan osgoi culni a sicrhau atebolrwydd cyhoeddus a chydymffurfiaeth â gweithdrefnau statudol. Mae'r bartneriaeth gref hon wedi arwain at ddatblygu protocol ar gyfer arolygwyr Estyn ac Adran 50, a thrafodaeth effeithiol sy'n annog timau esgobaethol i gefnogi gwelliant o ran safonau yn eu hysgolion. Mae agenda ddiweddar Estyn wedi rhoi ffocws penodol ar ystyried materion sy'n ymwneud â 'lles' ac mae ysgolion o natur grefyddol yn cyflwyno safbwynt unigryw i'r flaenoriaeth hon mewn ffordd sy'n gallu datblygu a gwella dyfarniad. Mae'r dyhead i wella safonau ledled Cymru a nodi a rhannu arfer arbennig yn bwysig iawn i arolygiad Adran 50 ac, ochr yn ochr ag agenda Estyn, yn helpu i gefnogi ysgolion i ddarparu dysg o safon dda i bob un o'u dysgwyr yn ogystal â datblygu llythrennedd crefyddol.

## Sut mae ethos ysgolion yn y sector yn hyrwyddo cynhwysiant a chydlyniant cymunedol?

Mae amrywiaeth o ran dysgwyr yn nodwedd bwysig o'r sector, felly mae ysgolion o natur grefyddol yn ceisio creu cymunedau dysgu sy'n ymrwymedig iawn i gynhwysiant. Mae ysgolion yn y sector yn ceisio dangos hyn drwy groesawu ac addysgu dysgwyr ag anghenion gwahanol ac o gefndiroedd gwahanol. Sail y weledigaeth hon yw'r gred bod pob plentyn yn gyfartal ac yn rhodd unigryw gan Dduw. Caiff y cysyniad o barchu urddas pawb ei gymell gan y cysyniad o garu Duw drwy garu eich cymydog, ac mae'r gred hon yn cael ei dilyn yng nghymunedau ysgolion drwy groesawu a dathlu gwahaniaethau, a'u hystyried yn gyfraniadau cadarnhaol i fywyd. Felly, mae ysgolion yn y sector yn ymrwymedig i sicrhau y gall pob person gyflawni ei botensial ac yn ymwybodol o hawl eraill i hyn. Credwn y gellir mesur ansawdd bywyd mewn cymuned drwy ei hymrwymiad i ofalu am y gwanaf a'r rhai sy'n agored i niwed a thrwy barchu eu hurddas. Mae ethos ysgolion y sector yn nodi bod potensial mawr gan bob unigolyn ac mae addysg sy'n seiliedig ar ffydd yn ceisio harneisio'r potensial hwn, gan alluogi pob unigolyn i ffynnu a gwneud cyfraniad unigryw at yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Fel pob ysgol a gynhelir, mae ysgolion ffydd hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant drwy wella presenoldeb ac ymddygiad. Mae tystiolaeth

5 Mae Adran 50 o Ddeddf Addysg 2005 yn nodi bod y corff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau y caiff trefniadau cydaddoli ac addysg enwadol eu harolygu mewn ysgolion o natur grefyddol.

yn dangos bod dysgwyr yn fwy tebygol o fod yn bresennol yn rheolaidd ac yn llai tebygol o gael eu cosbi (a'u gwahardd dros dro) am ymddygiad gwael os cân nhw eu trin â pharch ac os cân nhw brofiadau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.

Mae dyletswydd i hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn rhedeg ochr yn ochr â'r ymrwymiad i gynhwysiant. Mae llawer o'r ysgolion yn gyfoethog o ran amrywiaeth ethnig ac yn blaenoriaethu trefniadau i addysgu crefyddau eraill ochr yn ochr ag ystyried eu crefydd eu hunain. Cawn ein helpu â'r ymrwymiad hwn gan waith y Gymdeithas Genedlaethol[6] a Gwasanaeth Addysg Gatholig[7] Cymru a Lloegr sydd, gyda'i gilydd, yn diffinio cydlyniant cymunedol fel cysyniad sy'n croesawu:

- gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o berthyn ym mhob cymuned
- cyfle cyfartal a rhagoriaeth, sy'n sicrhau gall pob plentyn a pherson ifanc gael gafael ar addysg briodol a chymorth lles, a fydd yn ei helpu i gyflawni ei botensial
- cyfleoedd bywyd tebyg i bawb
- cydberthnasau cadarn a chadarnhaol yn y gweithle, mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach.

Mae'r ffordd hon o sicrhau cydlyniant yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth a rannwyd yn ddiweddar yn nogfen *Gwrthsafiad a pharch*[8] Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn nodi bod cydlyniant yn canolbwyntio ar sut mae pobl yn byw ochr yn ochr â'i gilydd gan ddangos cyd-ddealltwriaeth a pharch, a sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan a defnyddio gwasanaethau. Mae ysgolion o natur grefyddol yn cyflwyno cyfraniad adeiladol eu ffydd i'r cysyniad hwn, lle mae cydlyniant yn cael ei ystyried yn ffordd o integreiddio, lle mae gwahaniaethau yn cael eu gwerthfawrogi a lle y caiff gwerthoedd a rennir eu dathlu fel ffordd o gadw pobl gyda'i gilydd. Fel y dywedodd un dysgwr yn y ddogfen *Gwrthsafiad a pharch*: "Rwy'n hoffi'r gymuned yn fy ysgol gan ei bod yn debyg i jig-so. Os bydd un darn ar goll, ni fydd yn gyfan". Mae'r ddyletswydd hon i hyrwyddo cydlyniant yn adeiladu ar arfer da sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion yn y sector hwn, ac rydym yn llwyr ymrwymedig iddo.

6 www.churchofengland.org/education/national-society/staffing-governance/community-cohesion.aspx
7 www.bit.ly/communitycohesion
8 www.cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/110209respecten.pdf

## ASTUDIAETH ACHOS

**Cynhwysiant a chydlyniant**

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair yn Butetown wedi'i lleoli yng nghanol ardal hanesyddol Tiger Bay yng Nghaerdydd ac mae'n adlewyrchu natur amlddiwylliannol draddodiadol y gymuned, gyda tua 70 y cant o'r dysgwyr yn dod o gartrefi Mwslimaidd. Mae ethos yr ysgol yn ymwneud â chynhwysiant Cristnogol lle mae sensitifrwydd i anghenion ysbrydol, emosiynol a chrefyddol pob aelod o gymuned yr ysgol yn hollbwysig. Mae'r sensitifrwydd diwylliannol hwn yn galluogi Ysgol Gynradd y Forwyn Fair i feithrin ethos lle caiff rhwystrau sydd yn aml yn rhannu cymdeithasau eu croesawu a'u dathlu o fewn bywyd yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.

Mae gan ddysgwyr amrywiaeth eang o brofiadau crefyddol a diwylliannol, sy'n rhoi cyfle i rannu gwerthoedd, credoau ac ymrwymiadau. Caiff yr egwyddorion hyn eu dangos o ddydd i ddydd ar amserlen yr ysgol. Yn ogystal â chydaddoli beunyddiol ar ddydd Mercher, mae dysgwyr Cristnogol a dysgwyr nad ydyn nhw'n Fwslimaidd yn cymryd rhan mewn Cymundeb llawn yn Eglwys y Plwyf, tra bo dysgwyr Mwslimaidd yn cymryd rhan mewn gwasanaeth a gynhelir gan aelodau Mwslimaidd o'r staff ac, ar adegau, Imam y mosg lleol. Caiff gweddïau eu hadrodd ar ddiwedd pob dydd a chyn cinio. Ar ddydd Gwener, pan gynhelir gwasanaeth cyflawnwyr i'r ysgol gyfan, mae pob plentyn yn adrodd gweddi'r ysgol ac mae'r plant Mwslimaidd yn adrodd gweddi Islamaidd.

Defnyddir gwersi Cymraeg yn yr ystafelloedd dosbarth fel ffordd o ddwyn plant ynghyd. Mae llawer o ddysgwyr nad ydyn nhw'n rhugl mewn Saesneg yn ymuno â'r ysgol, felly mae'r gwersi Cymraeg yn gyfle gwych iddyn nhw a'r plant sy'n rhugl mewn Saesneg ddysgu pwnc gyda'i gilydd o'r un man cychwyn. Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i alluogi'r plant i ddathlu eu cefndir diwylliannol penodol eu hunain, ac mae wedi plannu gardd gymunedol Islamaidd sydd wedi ennill gwobrau ac yn gwahodd storïwyr a beirdd o gefndiroedd diwylliannol amrywiol i'r ysgol yn rheolaidd.

# Beth yw'r cwricwlwm?

Fel pob ysgol a gynhelir, mae darparwyr sy'n seiliedig ar ffydd, yn unol a deddfwriaeth a chanllawiau, yn ymrwymedig i sicrhau 'cwricwlwm cytbwys ac eang' sy'n cynnig dysg bersonol a chyfleoedd cyfartal i bob dysgwr yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau. I sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, mae angen i ysgolion o natur grefyddol ddilyn yr un safonau â phob ysgol arall a gynhelir yng Nghymru o ran cwricwlwm, gan adlewyrchu gwerthoedd a chredoau'r ysgolion ar yr un pryd. Mae hyn yn cynnwys y cyfraniad mae'r cwricwlwm ysgolion yn ei wneud at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr, addysg grefyddol, cydaddoli, addysg rhyw a pherthnasoedd ac addysg ynghylch gyrfaoedd a byd gwaith.

Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn meithrin sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n angenrheidiol i fywyd ymysg pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir cymdeithasol, oedran, anabledd, rhyw neu ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd neu gred. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol a gynhelir, waeth beth fo natur grefyddol yr ysgol. Ar gyfer pob pwnc yn y cwricwlwm cenedlaethol, mae rhaglenni astudio'n nodi beth y dylid ei addysgu i ddysgwyr. Mae targedau cyrhaeddiad a disgrifiadau o lefelau yn nodi'r safonau a ddisgwylir mewn perthynas â pherfformiad dysgwyr .

Er bod pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol yn bwysig o ran helpu dysgwyr i feithrin amrywiaeth o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth, mae sgiliau llythrennedd, yn enwedig mewn Cymraeg a Saesneg, yn arbennig o bwysig i ysgolion o natur grefyddol. Mae sgiliau o'r fath yn bwysig ynddyn nhw eu hunain, ond maen nhw'n bwysicach fyth o fewn cyd-destun ffydd am fod dysgwyr yn cael eu helpu i archwilio, deall a dehongli dogfennau crefyddol i'w galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ac arfer athroniaethau crefyddol yn eu bywydau. Hefyd, caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio ffynonellau cyfredol i'w helpu i archwilio a thrafod materion pwysig a llunio barn gytbwys wrth ystyried cwestiynau dynol, cwestiynau crefyddol a chwestiynau bywyd traddodiadol a chyfoes a allai effeithio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain. Caiff datblygiadau ym maes gwyddoniaeth, er enghraifft, yn ogystal â gwerthfawrogiad gwirioneddol o ddulliau gwyddonol, eu haddysgu'n gyfrifol. Caiff gwersi gwyddoniaeth eu haddysgu gyda'r nod o helpu dysgwyr i feithrin eu dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd bywyd drwy roi cyfleoedd i gynnal gwaith archwilio beirniadol. Ynghyd â mathemateg, mae ysgolion yn y sector yn cydnabod gall gwyddoniaeth helpu dysgwyr i archwilio'r cymhlethdod a'r drefn a geir ym myd natur ac, wrth wneud hynny, ennyn eu diddordeb.



Dysgwyr yn Ysgol Gynradd Gatholig Ein Harglwyddes, Bangor yn dysgu am drydan.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Archwilio celf a diwylliant**

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru ac Uned Feithrin Magwyr yn gwasanaethu cymuned Magwyr a Gwndy ynghyd â nifer o bentrefi gwledig yn Sir Fynwy. O safbwynt diwylliannol, nid oes llawer o blant o leiafrifoedd ethnig na rhai sy'n defnyddio Saesneg fel ail iaith yn yr ysgol. Mae'r ysgol felly yn ymwybodol o'r angen i godi ymwybyddiaeth plant o wahaniaethau diwylliannol er mwyn eu helpu i ddeall a pharchu dylanwad diwylliant o ran sut mae pobl yn gwisgo ac yn ymddangos.

Gan ddefnyddio celf, mae'r ysgol wedi datblygu prosiect sydd â'r nod o hyrwyddo llythrennedd diwylliannol ei dysgwyr. Mae'r prosiect yn adeiladu ar y ffaith bod Cristnogaeth yn grefydd fyd-eang ac yn parhau i archwilio sut caiff Iesu ei bortreadu mewn gwaith celf ym mhedwar ban byd. Drwy ystyried sawl darlun, mae'r plant yn dechrau deall bod diwylliant yn effeithio ar y ffordd mae eraill yn 'gweld' Iesu. Mae'r plant yn hynod wybodus ynghylch y prosiect ac yn ei ddeall, ac yn aml yn ymateb mewn ffordd ddwys drwy lunio eu gwaith celf craff a phrydferth eu hunain.

## Beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol ym mhob ysgol a gynhelir?

Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir addysgu addysg grefyddol o'r cam sylfaen hyd at 19 oed, waeth a yw'n ysgol o natur grefyddol ai peidio. Er bod addysg grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, nid yw'n rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol ac felly nid oes targedau statudol o ran cyrhaeddiad, rhaglenni astudio na threfniadau asesu wedi'u pennu ar gyfer y pwnc. Mae ysgolion nad ydyn nhw o natur grefyddol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion ffydd sefydledig yn defnyddio meysydd llafur addysg grefyddol y cytunir arnyn nhw'n lleol, gan gael cyngor gan CYSAG i helpu i sicrhau bod pob maes llafur addysg grefyddol yn adlewyrchu natur grefyddol yr ardal leol. Yn hyn o beth, yng Nghymru ceir partneriaeth effeithiol a llawer o gydweithio rhwng CYSAG a Llywodraeth Cymru, felly mae pob maes llafur y cytunir arno bellach yn seiliedig ar y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae'r Fframwaith yn ymdrin â rhaglenni astudio a disgrifiadau o lefelau ar gyfer pob grŵp oedran mewn ffordd sy'n seiliedig ar sgiliau.

Mae'r Fframwaith yn nodi tair sgìl graidd ryng-gysylltiedig ar gyfer addysg grefyddol sydd yr un mor bwysig â'i gilydd o ran rhoi cyfleoedd i ddysgwyr (o bob ffydd neu heb ffydd) sef, yn gyntaf, ystyried cwestiynau sylfaenol; yn ail, archwilio credoau, athroniaethau ac arferion crefyddol ac, yn olaf, galluogi dysgwyr i fynegi ymateb personol. Mae'r Fframwaith yn pwysleisio pwysigrwydd addysg grefyddol o ran meithrin parch a sensitifrwydd i farn eraill ymysg dysgwyr drwy drafod a holi mewn ffordd agored, fyfyriol a dadansoddol. Mae'r Fframwaith ei hun yn enghraifft wych o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a CYSAGau lleol (a'u cynrychiolwyr ffydd) i sicrhau darpariaeth o safon dda mewn perthynas ag addysg grefyddol mewn ysgolion drwy'r system gyfan.

### Beth yw natur addysg grefyddol mewn ysgolion o natur grefyddol?

Ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc mewn ysgolion o natur grefyddol, mae addysg grefyddol yn bwnc dilys ynddo'i hun o fewn cwricwlwm yr ysgol. Mae addysg grefyddol yn ddisgyblaeth academaidd drwyadl ac mae angen addysgu'r pwnc mewn ffordd sy'n adlewyrchu hyn, gan ei ddatblygu a darparu adnoddau gyda'r un ymrwymiad ag unrhyw bwnc arall. Mewn ysgolion o natur grefyddol, ystyrir bod addysg grefyddol wrth wraidd y cwricwlwm, yn llywio'r cwricwlwm cyfan a bywyd yr ysgol ac yn eu dwyn ynghyd.

Y nod yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'u ffydd mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffydd benodol mae'n canolbwyntio arni, ond nid mewn ffordd sy'n gwthio syniadau. Yn fwy cyffredinol, mae addysg grefyddol yn y sector yn helpu myfyrwyr i archwilio eu hymatebion i gwestiynau mawr bywyd ynghylch dynoliaeth, y dechreuad a'n diben. Mae hefyd yn ymwneud ag addysgu'r sgiliau sydd eu hangen i ystyried amrywiaeth o gredoau ac arferion crefyddol yn feirniadol a myfyrio arnyn nhw. Mae addysg grefyddol hefyd yn meithrin agweddau priodol pan gaiff ei haddysgu'n effeithiol: er enghraifft, parchu'r gwirionedd, parchu barn eraill, ymwybyddiaeth ysbrydol, ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb moesol, ymwybyddiaeth o ofynion ymrwymiad crefyddol o ddydd i ddydd ac yn arbennig yr heriau a'r manteision sy'n gysylltiedig â byw mewn cymdeithas a byd amlddiwylliannol ac aml-ffydd.

Mae statws addysg grefyddol yn dibynnu ar y math o ysgol, natur y weithred ymddiriedolaeth a dewisiadau rhieni, ond bydd ysgolion o natur grefyddol yn ystyried addysg grefyddol yn bwnc craidd ac yn dilyn y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol ac a nodwyd eisoes neu faes llafur enwadol/crefyddol priodol. Mae pob maes llafur enwadol/crefyddol yn unigryw yn y ffordd mae'n canolbwyntio ar gredoau crefyddol craidd penodol, y ffordd mae'r athroniaethau crefyddol, fel y'u mynegir yn y Llyfr(au) Sanctaidd ac ysgrifau crefyddol eraill, yn cyfleu nodweddion hanfodol y ffydd a'r prif draddodiadau ac arferion moesegol sy'n llywio bywydau'r credinwyr. Yn ogystal â chanolbwyntio ar draddodiad crefyddol yr ysgol, bydd ysgolion yn y sector hefyd yn astudio amryw grefyddau/credoau eraill. Cydnabyddir bod ymwybyddiaeth o ddaliadau crefyddol eraill yn cynnwys pob dysgwr, yn meithrin dealltwriaeth a pharch ac yn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w paratoi ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain a'u helpu i fod yn ddinasyddion 'byd-eang' cyfrifol.

Mewn pob ysgol o natur grefyddol, bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â chymwysterau allanol priodol mewn astudiaethau crefyddol er mwyn atgyfnerthu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ymwneud â thraddodiad crefyddol yr ysgol. Dyma fydd prif ffocws yr astudiaethau fwy na thebyg, ond gall ysgolion hefyd annog dysgwyr i ystyried traddodiadau crefyddol eraill neu fynd i'r afael â chwrs mwy athronyddol/cwrs sy'n canolbwyntio'n fwy ar foeseg. Lle mae ysgolion yn ymwneud â Bagloriaeth Cymru, mae ysgolion yn croesawu'r cyfle i ystyried cynnwys/materion/gwerthoedd crefyddol fel rhan annatod o'r cwrs.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Eithafiaeth grefyddol: Prosiect Cymru'n Cyd-dynnu**

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf wedi bod yn gweithio gyda dwy Ysgol Uwchradd arall yng Nghaerdydd (nad ydyn nhw'n rhan o'r sector) i dreialu prosiect sydd â'r nod o ystyried eithafiaeth grefyddol ac yn enwedig y ffordd caiff neges ddi-drais y ffydd Islamaidd ei gwyr-droi. Mae'r prosiect yn gweithio gyda dysgwyr i helpu i fynd i'r afael â rhagfarn, gwahaniaethu, anoddefgarwch a radicaleiddio ymysg pobl ifanc du a gwyn. Fel prosiect dilynol, mae hefyd yn ceisio hyrwyddo goddefgarwch a pharch i bawb a chreu cymuned fwy cydlynol. Ariannwyd prosiect peilot 2008 gan Lywodraeth Cymru a chafodd ei ddatblygu gan bum athro Prifysgol, Heddlu De Cymru, yr Eglwys yng Nghymru, Cyngor Mwslimaidd Cymru, Iddewon De Cymru, Archesgob Catholig Cymru a Chymuned Hindŵaidd Caerdydd. Mae Prosiect Cymru'n Cyd-dynnu wedi cael cryn ganmoliaeth a nododd yr Athro Vincent Biondo, Athro Cynorthwyol o Brifysgol Talaith Califfornia, sy'n arbenigwr yn y maes:

> Prosiect Cymru'n Cyd-dynnu yw uchafbwynt y gwaith rhyng-ffydd llwyddiannus a wnaed yng Nghaerdydd. Mae'r ffaith bod Cynulliad Cymru a'r Eglwys yng Nghymru yn gweithio gyda Chyngor Mwslimaidd Cymru ar Brosiect Cymru'n Cyd-dynnu yn dangos arloesedd ynddo'i hun.

## Sut yr ymdrinnir â sgiliau a materion dysgu ar draws y cwricwlwm, a sut y cân nhw eu dehongli?

Caiff rhai o ofynion cyffredinol y cwricwlwm eu croesawu fel cyfleoedd i gefnogi llythrennedd diwylliannol dysgwyr yn uniongyrchol a'r rôl mae ffydd wedi'i chwarae o ran llunio gwerthoedd cenedligrwydd. Yn arbennig, bydd y Cwricwlwm Cymreig yn anochel yn cwmpasu hanes ffydd yng Nghymru, Ewrop a'r byd ac yn ystyried sut y mynegir gwerthoedd a chredoau crefyddol yn lleol ac yn fyd-eang. Ym mhob ysgol o natur grefyddol, caiff dysgwyr eu hannog i feithrin ymwybyddiaeth o nifer o ddiwylliannau a thraddodiadau crefyddol er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r gwerthoedd a'r credoau maen nhw'n eu rhannu.

### ASTUDIAETH ACHOS

**Y Cwricwlwm Cymreig**

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-boyr yn Sir Gaerfyrddin yn falch o'i hymwneud clir a chadarnhaol â'r gymuned iaith Gymraeg leol. Mae natur Gristnogol Ysgol Pen-boyr yn seiliedig ar gydberthynas gref â'r eglwys leol ac mae'r ysgol yn meithrin ac yn hyrwyddo ei hiaith a'i diwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cwricwlwm, a'r Gymraeg yw iaith yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel iaith gyntaf y rhan fwyaf o deuluoedd lleol. Mae hyn yn rhan bwysig o weledigaeth yr ysgol i helpu ei dysgwyr i gymryd y camau cyntaf mewn perthynas â'u dysg i baratoi ar gyfer bywyd a deall gwerth eu treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, gan osod hyn yng nghyd-destun yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Gymru fodern. Felly, mae Ysgol Pen-boyr yn ddigon hyderus i ddisgrifio'i hun fel teulu lle mae pawb yn dysgu gyda'i gilydd, gan bwysleisio'i hymrwymiad i feithrin ymdeimlad o werthoedd moesol ac ymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol ar fywyd mewn amgylchedd Cristnogol, sy'n galluogi pob plentyn i dyfu a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas lle y defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg i gyfathrebu.

Caiff pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ei hannog hefyd i addysgu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) ar draws y cwricwlwm. Credwn fod gan ADCDF rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu pobl ifanc i ddeall eu rolau'n llawn fel dinasyddion mewn cymdeithas fodern ac amrywiol. Yn ein hysgolion, ystyrir ADCDF o fewn sawl maes pwnc, ond rhoddir pwyslais penodol ar y gwerthoedd a'r credoau a hyrwyddir gan y ffydd draddodiadol. Er enghraifft, mae ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgolion Catholig o'r farn y dylid addysgu ADCDF drwy ganolbwyntio ar y cysyniad sylfaenol o gydberthynas Duw â'r ddynolryw – a phob creadur byw – fel Creawdwr y byd naturiol. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn myfyrio ar y cyfrifoldeb mae'r gydberthynas hon yn ei rhoi ar Gristnogion fel stiwardiaid.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Noddi Ysgol Good Hope yn Uganda**

Mae ymwybyddiaeth, gwasanaeth ac, wrth gwrs, ddiolchgarwch yn themâu mewn ystafelloedd dosbarth ledled Cymru. Mewn unrhyw ysgol, caiff dysgwyr eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu galluogi i gysylltu â'r gymuned ehangach a'r rhai sy'n llai ffodus. Yn ddiweddar, dywedodd y Pab Benedict XVI: 'It is the desire of the Church to transform the world with the proclamation of the Gospel of love, and to bring the light of God into this world'. Gwnaeth y Pab annog Catholigion i ymestyn eu dwylo i bedwar ban byd drwy weddïo a chynnig cymorth ariannol i bobl ddifreintiedig. Mewn ymateb i hyn, sefydlodd Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Joseff Sant ym Mhort Talbot gysylltiad ag Ysgol Good Hope yn Uganda yn 2007. I ddechrau, noddwyd 17 o blant drwy dalu am eu gwisg ysgol, eu haddysg a dau bryd mawr o fwyd y dydd am flwyddyn. Ers hynny, drwy godi arian bu'n bosibl i'r dysgwyr gynyddu nifer y myfyrwyr a noddir ganddyn nhw a bellach maen nhw'n gyfrifol am addysg pob un o'r plant yn y dosbarth ysgoloriaeth yn Ysgol Good Hope. Mae dysgwyr hefyd wedi prynu peiriannau gwnïo, offerynnau cerdd, llyfrau ac offer celf ar gyfer yr ysgol, yn ogystal â sawl beic i'w defnyddio gan y dysgwyr sy'n gorfod teithio pellter hir i'r ysgol bob dydd. Mae'r llythyrau a dderbyniwyd gan ddysgwyr Ysgol Good Hope yn galonogol ac maen nhw'n ddiolchgar iawn am y gwahaniaeth sylweddol mae'r nawdd hwn yn ei wneud i'w bywydau. Mae dysgwyr Ysgol Joseff Sant hefyd yn ddiolchgar iawn am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu o'u cysylltiad parhaus ag Ysgol Good Hope a'r ffaith ei fod wedi meithrin eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chymorth a datblygu.

Lle mae dysgwyr yn dysgu'n seiliedig ar waith yn ein hysgolion, mae'r ffocws ar ddatblygu'r person cyfan yn hytrach na'r sgiliau sy'n eu paratoi ar gyfer gyrfaoedd yn unig. Mae'r pwyslais ar alwedigaeth, a chaiff pob dysgwr ei annog i feithrin a defnyddio ei dalentau drwy fenter, ac fel ffordd o wasanaethu Duw a chyfrannu'n ystyrlon at gymdeithas.

# Sut caiff addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ei darparu?

Mewn ysgolion o natur grefyddol, mae gwersi ABCh yn dilyn y fframwaith ABCh ar y cyfan gan bwysleisio datblygiad y person cyfan a phwysigrwydd ffyddlondeb mewn perthnasau hefyd. Bydd ysgol o natur grefyddol yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu parch tuag at eraill a goddefgarwch ynghyd â dyhead i ysbrydoli dysgwyr sydd am helpu ac ymdrechu i greu byd heddychlon, cyfiawn a theg. Caiff ABCh ei chynnwys ym mhob agwedd ar y cwricwlwm ac mae'n ymwneud â hunan-barch a hyder. Mae'n pwysleisio na dderbynnir bwlio o unrhyw fath (gan gynnwys bwlio hiliol, rhywiaethol a homoffobig). Mae ysgol o natur grefyddol yn debygol o fod am adlewyrchu gweithgareddau'r gymuned ffydd leol/fyd-eang gan annog dysgwyr i geisio cyngor a chwarae rhan elusennol mewn cymdeithas. Caiff dysgwyr hefyd eu hannog i ystyried bod yn rhan o gyngor yr ysgol i'w helpu i dyfu'n ddinasyddion cyfrifol, a bydd llawer yn mentora eu cyfoedion i gefnogi eu cyd-ddysgwyr a'u helpu i ddelio â materion bugeiliol cyffredinol a materion yn ymwneud â ffydd.

Drwy ddarparu'r rhaglen ABCh, mae ysgolion yn y sector yn pwysleisio pwysigrwydd y rôl mae'r teulu a'r gymuned ffydd yn ei chwarae o ran cyfleu gwerthoedd ac agweddau cyfrifol tuag at berthnasau, ac yn arbennig gonestrwydd o ran cydberthnasau rhywiol. Lle y darperir addysg rhyw, bydd yn adlewyrchu moeseg rywiol y gymuned ffydd mae'r ysgol yn perthyn iddi ac yn ategu gwerthoedd a chredoau'r gymuned ffydd a rôl y teulu fel y prif addysgwr. Caiff hyn ei helpu gan y cyfrifoldeb a roddir ar y corff llywodraethu mewn perthynas â pholisi addysg rhyw a chydberthnasau'r ysgol, a phwysigrwydd y rôl mae llywodraethwyr sylfaen yn ei chwarae o ran ei ddatblygu.

## Sut caiff dysgwyr eu hannog i feithrin eu hysbrydolrwydd?

Er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob dysgwr, mae ysgolion o natur grefyddol hefyd yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddatblygiad ysbrydol dysgwyr. Ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm, rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr esbonio ac ystyried eu cydberthynas â Duw ac ymarfer eu ffydd drwy lonyddwch, addoli a myfyrio. Fel rhan o'u datblygiad ysbrydol, caiff dysgwyr eu hannog i feithrin hunanhyder, parch at eraill a rhyfeddod a chyfrifoldeb o ran byd natur. Cân nhw hefyd eu hannog i ystyried cwestiynau crefyddol, cwestiynau dynol a chwestiynau bywyd heriol.


## ASTUDIAETH ACHOS

**Datblygu ysbrydolrwydd mewn plant meithrin**

Yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Magwyr, ymdrinnir ag ysbrydolrwydd ar sail perthynas fel ffordd o feithrin cydberthynas plentyn â Duw, ag eraill ac ag ef ei hun. Felly, ystyrir bod hunanhyder yn agwedd bwysig ar ysbrydolrwydd; os yw plentyn yn gwybod ei fod yn werthfawr yn llygaid Duw yna bydd y plentyn yn gallu gwerthfawrogi ei hun a dangos parch at eraill. At hynny, bydd plentyn sy'n gwybod bod Duw yn ei garu yn dysgu i barchu a gofalu am y byd a grëwyd gan Dduw. O ystyried hyn, mae'r awyr agored yn amgylchedd dysgu pwysig mewn perthynas ag ysbrydolrwydd.

Yn y lluniau mae'r plant meithrin yn gweld pŵer y gwynt yn troi'r felin wynt; maen nhw'n dysgu bod angen dŵr, golau, cynhesrwydd a phridd ar blanhigion i dyfu. Wrth wylio hadau yn egino ac yn tyfu a'r twnel helyg a blannwyd yn ddiweddar yn blodeuo, ceir ymdeimlad o ryfeddod a syndod ymysg y plant. Drwy wneud hyn, mae plant Meithrinfa'r Eglwys yng Nghymru yn dysgu am greadigaeth Duw ac felly mae stori Feiblaidd y Cread yn dod yn fyw iddyn nhw. Maen nhw'n meithrin ymwybyddiaeth ysbrydol drwy ddeall y bydd y planhigion yn gwywo ac yn marw oni ofelir amdanyn nhw ac felly maen nhw'n dysgu pwysigrwydd gofalu am greadigaethau Duw. Mae ysbrydolrwydd wrth wraidd yr angen i ofalu am yr amgylchedd a phopeth mae Duw wedi'i roi i ni.







# Beth yw rôl cydaddoli?

Mae cydaddoli wedi bod yn ofyniad statudol ar gyfer pob dysgwr mewn addysg wladol ers Deddf Addysg 1944 (nodwyd hyn hefyd yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998). Mae Cylchlythyr Rhif 10/94 y Swyddfa Gymreig yn nodi bod cydaddoli yn anelu at:

> . . . gynnig cyfle i ddisgyblion addoli Duw; ystyried materion ysbrydol a moesol ac archwilio eu credoau eu hunain; at annog disgyblion i gymryd rhan ac i ymateb, boed drwy ymwneud â chyflwyno'r addoliad neu drwy wrando, gwylio ac ymuno yn yr addoliad a gynigir; ac at ddatblygu ysbryd cymunedol, hybu ethos cyffredin a gwerthoedd cyffredin, ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.



Cydaddoli yn Ysgol Gynradd Gatholig Ein Harglwyddes, Bangor.

Mewn ysgolion nad ydyn nhw o natur grefyddol, mae'n rhaid i weithredoedd addoli fod o natur Gristnogol yn gyfan gwbl neu yn bennaf, ond mewn ysgolion o natur grefyddol cynigir gweithredoedd cydaddoli yn unol ag arferion crefydd yr ysgol. Mae sefydlu gweithredoedd cydaddoli ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol yn helpu i hyrwyddo ethos yr ysgol yn ein barn ni: mae'n creu'r naws ar gyfer pob diwrnod, yn sefydlu'r ysgol fel cymuned ac yn meithrin ei natur grefyddol unigryw. Felly, mae cydaddoli mewn ysgolion o natur grefyddol yn helpu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol pob aelod o gymuned yr ysgol ac, fel gweithredoedd cymunedol clir, yn helpu i fynd i'r afael ag unigoliaeth. Mae addoli'n dathlu'r gwerthoedd cyffredin sy'n cydlynu staff a dysgwyr. Mae'n rhoi cyfle adeiladol i archwilio ffydd fyd-eang, ystyried cwestiynau yn ymwneud ag ystyr ac arwyddocâd mewn ffordd feirniadol, arfer llonyddwch ac archwilio'r dimensiwn ysbrydol i fywyd mewn ffordd sy'n cyfrannu at bersonoliaeth iach, gytbwys a myfyriol.

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae ysgolion o natur grefyddol yn ymwybodol bod angen i bolisi'r ysgol ar gydaddoli ystyried cefndiroedd amrywiol y dysgwyr (a'r staff) yn ogystal â'u hoedrannau a'u tueddfrydau. O ystyried hyn, mae ysgolion yn parchu hawl rhieni/gofalwyr i beidio â gadael i'w plant gymryd rhan mewn gweithredoedd cydaddoli, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, ac yn cydnabod y newid yn y gyfraith sydd bellach yn rhoi hawl i

ddysgwyr chweched dosbarth beidio â chymryd rhan mewn gweithredoedd cydaddoli os nad ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Pan ddigwydd hyn, gall ysgolion yn y sector drefnu gweithgareddau amgen yn cynnwys amcanion tebyg a meithrin datblygiad ysbrydol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol myfyrwyr.

## ASTUDIAETH ACHOS

**Dysgwyr yn addoli cyn gadael Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones, y Rhyl**

Tynnwyd y llun isod yn Offeren Dathlu a Chyflwyno Ffeiliau Cynnydd Blwyddyn 11 yn Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones, y Rhyl. Roedd yr offeren yn nodi cyfnod o newid ym mywydau'r dysgwyr ac yn ddigwyddiad arbennig iawn. Gwnaeth y myfyrwyr chwarae rhan flaenllaw yn yr offeren, gan chwarae cerddoriaeth a chanu unawdau. Hefyd, gwnaed cyflwyniad gan y Prif Fachgen a'r Brif Ferch. Cafodd ymdeimlad hyfryd o gymuned ei feithrin gan yr addoliad. Cyflwynwyd rhoddion i bob aelod o'r staff addysgu fel diolch gan y dysgwyr. Roedd yr eglwys leol yn llawn myfyrwyr, staff yr ysgol, rhieni, teulu a ffrindiau a chafwyd noson arbennig iawn gyda gweddïau i'r dysgwyr a oedd yn paratoi ar gyfer yr arholiadau TGAU.



## Beth sydd gan gymunedau ffydd Cymru i'w gynnig i ysgolion a cholegau eraill nad ydyn nhw yn y sector?

Mae cymunedau ffydd Cymru wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn eu cymunedau lleol ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r ffaith eu bod mewn cysylltiad ag ysgolion yn eu hardaloedd o ddydd i ddydd ac yn arbennig y croeso a gân nhw gan yr ysgolion hynny nad ydyn nhw o natur grefyddol. Mae sefydliadau ffydd mewn sefyllfa i gynnig cyfraniad ymarferol o fath a all effeithio ar fywyd, gwaith a thystio ysgolion y mae ganddyn nhw bartneriaethau creadigol â nhw, ac maen nhw'n barod i wneud hynny. Felly, mae'r cymunedau ffydd yn awyddus i gefnogi ysgolion mewn perthynas â threfnu cydaddoli, nid yn unig drwy ei hwyluso ond drwy ddarparu adnoddau a syniadau neu feithrin cysylltiadau â'r gymuned ffydd ehangach gan sicrhau rhaglen eang a chytbwys ar gyfer gwasanaethau. Mae cymunedau ffydd lleol hefyd yn cefnogi'r maes llafur addysg grefyddol drwy gynnig arbenigedd, adnoddau ac ymweliadau maes er mwyn cyfoethogi a datblygu'r pwnc. At hynny, o ystyried bod y cymunedau ffydd eu hunain yn seiliedig ar agweddau a gwerthoedd clir, maen nhw'n aml mewn sefyllfa dda i helpu ysgolion i ddatblygu gwerthoedd craidd a phennu ethos clir ar gyfer cymuned gydlynol, ac maen nhw'n awydddus i wneud hynny.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol a gweithio tuag at bartneriaethau gwell o fewn y system, mae'r darparwyr ffydd yn awyddus i ystyried rhagor o ffyrdd o rannu eu hadnoddau a'u harbenigedd ag ysgolion yng Nghymru. Mae gofal bugeiliol yn faes addawol o ran datblygu. Mae gan y gymuned ffydd arbenigedd penodol y gellid ei ddefnyddio'n ehangach mewn ysgolion. Gellid ategu sgiliau hanfodol o ran cwnsela, caplaniaeth a gofal bugeiliol gan unigolion priodol o fewn y gymuned ffydd (ac mae hyn yn digwydd) a gall hyn fod yn effeithiol iawn lle mae'r cwnselydd nau'r gofalwr bugeiliol yn unigolyn a gydnabyddir gan gymuned yr ysgol heb fod yn rhan ohoni. Yn fwy cyffredinol, mae'r gymuned ffydd yn awyddus i gefnogi'r alwedigaeth i addysgu. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod llawer o athrawon yn mynegi ymdeimlad cryf o alwedigaeth wrth siarad am eu gwaith a hefyd fod llawer o athrawon yn aelodau o gymunedau ffydd. Drwy ymgysylltu â'r gymuned honno ar lefel leol, gellir darparu cymorth ac anogaeth sy'n cydnabod gwerth y proffesiwn addysgu. Byddwn yn parhau i gydweithio i ddatblygu'r cyfleoedd pwysig hyn, ac rydym yn awyddus i ddangos ein hymrwymiad i bob dysgwr yng Nghymru waeth beth fo'u crefydd.

## ASTUDIAETH ACHOS


**Cymunedau ffydd ac ysgolion cymunedol lleol**

Ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Canon Edward Evans wedi datblygu ffocws newydd i'w weinidogaeth, sef cefnogi gwaith yr ysgolion cymunedol lleol yn ei blwyf. Mae Ysgol Gynradd Trelales ac Ysgol Gyfun Bryntirion gerllaw yn gwerthfawrogi gwaith a chefnogaeth y Canon Evans ac mae'r berthynas gref wedi meithrin ymddiriedaeth, cyfeillgarwch a chefnogaeth dros amser. I ddechrau, roedd y berthynas â'r ysgolion yn ymarferol ei natur, gyda'r clerigwr lleol yn cymryd rhan mewn gweithredoedd cydaddoli ac yn cynnig help mewn perthynas â materion crefyddol. Fel diolch am hyn, roedd yr ysgolion yn gallu cynnig safle i gynnal digwyddiadau cymunedol lleol. Wrth i'r berthynas hon gryfhau, dechreuodd y Canon Evans gynnig cymorth bugeiliol yn yr ysgolion ar gyfer dysgwyr a staff. Drwy hyn, mae dimensiwn ysbrydol wedi ymddangos, ac mae'r ddwy ysgol yn arddel set eang a chynhwysol o werthoedd sy'n sail i'w bywydau, yn seiliedig ar gydberthynas agored a chynhwysol â'u cymuned eglwysig leol.

# Casgliad

Yn y ddogfen hon, mae Llywodraeth Cymru a'r cymunedau ffydd wedi amlinellu gweledigaeth a rennir gennym mewn perthynas â'r rhan bwysig a chadarnhaol mae ysgolion o natur grefyddol yn ei chwarae yn y system ysgolion a ariennir yn gyhoeddus ac yn y gymuned ehangach. Cynigiwn ein datganiad ar y cyd fel cyfraniad cadarnhaol at drafodaeth hyddysg am y ffordd gall pob ysgol a gynhelir barhau i weithio gyda'i gilydd a helpu i greu system addysg yn seiliedig ar gymunedau integredig, cydlynol a chynaliadwy. Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau ein hymrwymiad i feithrin cysylltiadau gyda'r nod o ddatblygu cyd-ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth o fewn y system a thu hwnt, ac yn ailbwysleisio ein haddewid i feithrin dysgwyr mewn perthynas â'u ffydd a'u hannog i weithredu er lles pawb drwy hyrwyddo cymdeithas deg a chynhwysol. Rydym yn gwerthfawrogi'r partneriaethau sy'n bodoli rhyngom ac am ddefnyddio'r adnoddau a gynigir gan ein natur unigryw fel ysgolion i wneud cyfraniad cadarnhaol at y system, yn hytrach nag fel ffordd o sicrhau detholusrwydd. Oherwydd rydym yn rhannu'r weledigaeth bod ffydd mewn addysg yn cynnig llawer o gyfalaf cymdeithasol cadarnhaol drwy gefnogi a chyfoethogi'r system, gan gyfrannu safbwyntiau cyffrous a buddiol mewn perthynas â nodau addysg gyhoeddus.

# Atodiad: Cymru – Ffiniau esgobaethol




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Llywodraeth Cymru.
Rhif Trwydded: 100017916
Cartographics